**Myfyrdod ar gyfer y Groglith**

Y mae'n naturiol sylwi ar eiriau olaf pobl cyn marw, ac yn arbennig eiriau pobl a ddylanwadodd yn fawr ar eu hoes. Fel y disgwylir, mae geiriau olaf pobl yn amrywio'n fawr o ran eu cynnwys a'u hysbrydolrwydd. Ar un llaw, bu farw Voltaire, yr anffyddiwr o Ffrainc, mewn anobaith llwyr, a'i eiriau olaf oedd, 'Mae Duw a dyn wedi fy ngadael', ond, ar y llaw arall, bu farw John Wesley yn ysbryd yr Efengyl, gyda'r geiriau, 'Mae Duw gyda ni. Ffarwél, ffarwél'. Yn yr un modd, bu farw Richard Baxter, un o'r Piwritaniaid, mewn ysbryd ffydd, a'i frawddeg olaf oedd, 'Mae gennyf boen, ond mae gennyf dangnefedd'. Yn nes at ein cyfnod ni, fe gofiwn dystiolaeth loyw Dietrich Bonhoeffer ychydig funudau cyn ei grogi. Dedfrydwyd ef gan y Natsïaid am ei safiad dewr yn erbyn Hitler, ac wrth gerdded gyda'r milwyr at y crocbren dywedodd, 'Dyma'r diwedd, ond i mi, gychwyn bywyd'.

Heddiw fe seiliwn ein myfyrdod ar eiriau olaf y person mwyaf a welodd y byd erioed, sef yr Arglwydd Iesu Grist. Ni allwn byth ddirnad yn llawn ddyfnder ei ddioddefaint, na mesur mawredd ei gariad tuag atom, ond nid yw hyn yn rheswm digonol dros beidio â darganfod drosom ein hunain neges oesol y groes.

Yn yr efengylau fe geir saith o weddïau Iesu Grist oddi ar ei groes. Cofnodir tair ohonynt yn Efengyl Luc, tair yn Efengyl Ioan, ac un yn Efengyl Mathew a Marc. Gweddïau byrion yn llawn angerdd cariad Duw ydynt, a thrwyddynt estynnir i ni gyfle i dreiddio i mewn i feddwl a chalon ein Gwaredwr. Gadewch i ni wneud hynny yn awr mewn ysbryd gostyngedig. Fe wrandawn ar y gweddïau a offrymodd Iesu Grist yn ystod ei ddioddefaint ar y groes, a hefyd yr adnodau sy'n gefndir iddynt.

'Pan ddaethant i'r lle a elwir y Benglog, yno croeshoeliwyd ef a'r troseddwyr, y naill ar y dde a'r llall ar y chwith iddo. Ac meddai Iesu, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.'

Yna dywedodd un o'r troseddwyr, 'Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas.' Atebodd yntau, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys.'

Pan welodd Iesu ei fam, felly, a'r disgybl yr oedd yn ei garu yn sefyll yn ei hymyl, meddai wrth ei fam, 'Wraig, dyma dy fab di.' Yna dywedodd wrth y disgybl, 'Dyma dy fam di.'

Ac am dri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, 'Eloï, Eloï, lema sabachthani', hynny yw, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?'

Ar ôl hyn yr oedd Iesu'n gwybod bod pob peth bellach wedi ei orffen, ac er mwyn i'r Ysgrythur gael ei gyflawni dywedodd, 'Y mae arnaf syched.'

Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, 'Gorffennwyd.'

Rhwygwyd llen y deml yn ei chanol. Llefodd Iesu â llef uchel, 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd.' A chan ddweud hyn bu farw.'

Yn gyntaf, gweddi Iesu Grist drosom ni, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.'

Yn ystod ei weinidogaeth, fe ddysgodd Iesu Grist ei ddisgyblion i faddau, ac ar y groes, yn anterth ei boen, fe wnaeth ei hunan yr hyn a ddysgodd i eraill. Yn sicr, nid profiad dymunol ac esmwyth i Iesu oedd gweddïo am faddeuant ei Dad nefol i'r rhai a'i croeshoeliodd. Yn ei gerdd, mae'r bardd Waldo Williams yn trafod cost maddeuant:

'Beth yw maddau? Cael ffordd trwy'r drain
At ochr hen elyn.'

Roedd estyn maddeuant Duw yn weithred a gostiodd i Iesu Grist ddioddefaint y tu hwnt i'n dirnadaeth ni. Nid peth rhwydd a rhad yw maddau. Fe gostiodd i'n Harglwydd groes Calfaria.

Y mae angen dwfn am faddeuant ar bob un ohonom, oherwydd rydym oll yn euog o bechod. Er bod croes Calfaria ymhell oddi wrthym yn ddaearyddol ac yn hanesyddol, y mae ei dedfryd arnom yn wirionedd na all neb ei osgoi. Mynegir hyn yn dreiddgar iawn gan y bardd Gwilym R. Jones yn

ei gerdd, ‘O! yr oeddem ni yno.’

‘Mae ar ein traed ni laid Caersalem
O’r Pasg y flwyddyn tri deg tri;
Mae ar ein dwylo greithiau’r ddraenen honno
A blethwyd gennym at yr uchel sbri.
O! yr oeddem ni yno,
Ond rydym rywsut wedi hen anghofio.’

Ond er dyfned yw cyflwr pechadurus dyn, nid oes rhaid i neb ohonom ymollwng i anobaith. Y mae trugaredd Duw yn ddyfnach na’n trueni ni, a gwyddom hynny trwy’r Efengyl. Datguddiodd Iesu Grist ar groes Calfaria gariad diymollwng Duw tuag atom, ac yn ei gariad ef y cawn faddeuant am ein pechod. Cofiwn mai rhodd rad Duw yng Nghrist drwy’r groes yw maddeuant. Ni allwn fyth ei haeddu na’i brynu, ond fe allwn ymateb drwy edifarhau am ein pechod, a gweddïo mewn ffydd gyda Williams Pantycelyn:

‘O maddau ’mai, a chliria’n llwyr
F’euogrwydd oll i gyd;
N’ad im dristáu dy fawredd mwy
Tra byddwyf yn y byd.’

**Darlleniad: Efengyl Luc 23:32–43**

Fel y clywsom, croeshoeliwyd dau droseddwr gyda Iesu ar ddydd Gwener y Groglith. Bu farw un troseddwr yn ei bechod, ac yn ddiedifar i’r diwedd, ond bu farw’r llall yn edifeiriol ei ysbryd, a chyda’r addewid y byddai gyda Iesu ym Mharadwys. Mewn gwirionedd, roedd Duw a’r holl ddynoliaeth ar Galfaria’r diwrnod bythgofiadwy hwnnw. Yno roedd Duw yn Iesu Grist yng ngrym ei gariad sanctaidd. Yno roedd yr Eglwys Gristnogol yn y lleidr edifeiriol, ac yno roedd y byd gelyniaethus yn y lleidr a fynnodd farw yn ei bechod.

Mae’r hanes cysegredig hwn yn cynnwys neges gysurlawn a rhybudd difrifol. Cysur mawr yr Efengyl yw nad yw Iesu Grist yn gwrthod neb sy’n dod ato i geisio ei drugaredd. Cofiwn ei addewid, ‘Ni fwriaf allan byth mo’r sawl sy’n dod ataf fi’.

Yn ogystal â hyn, mae’r Arglwydd Iesu Grist yn abl i achub hyd yr eithaf. Cymeriad truenus iawn oedd y troseddwr edifeiriol, a chyfaddefodd hynny yn gyhoeddus, ond fel yr arferai rhai o’r hen bregethwyr ddweud, fe’i cipiwyd gan Iesu o’r tân i Baradwys.

Ond wrth bwysleisio gallu a pharodrwydd ein Gwaredwr i achub ar yr unfed awr ar ddeg, cofiwn nad pwrpas yr hanes hwn yw caniatáu i ni oedi rhag credu’r Efengyl, a chymryd yn ganiataol y gwna Duw drugarhau wrthym ar y funud olaf. Na, rhybudd difrifol yr Efengyl yw ei bod yn fater o frys i gredu yn Iesu Grist, ac mai heddiw yw amser Duw i wneud enaid marw’n fyw.

‘Ofer oedi hyd yfory,
Nid oes wybod pwy a’i gwêl;
Hwn yw’r dydd i ddod at Iesu,
Mae yn derbyn pawb a ddêl.’

Yn drydydd, fe ddywedodd Iesu Grist oddi ar ei groes wrth ei fam, ‘Wraig, dyma dy fab di’, ac wrth y disgybl, ‘Dyma dy fam di’. Yn y frawddeg a ddywedodd Iesu wrth ei fam, fe ganfyddwn gymaint oedd ei ofal ohoni. Roedd wedi ei gweld mewn sefyllfaoedd amrywiol iawn, ond roedd ei gweld hi yn ei galar, oddi ar ei groes, yn brofiad ysgytwol iddo.

Yn yr un modd, profiad dirdynnol i Mair oedd sefyll yn ymyl y groes. Teimlodd fel mam ing dioddefaint ei mab, a gwireddwyd proffwydoliaeth Simeon, 'a thithau, trywenir dy enaid gan gleddyf'. Yn ei ddioddefaint, teimlai'r Iesu i'r byw boenau ingol ei fam, a gwyddai y byddai angen arni gwmni a chymorth un a fyddai yn deall ei hargyfwng. Gwyddai hefyd y byddai angen cysur mam ar Ioan, y disgybl annwyl. Am hynny, mynegodd ei ddymuniad iddynt ofalu am ei gilydd, fel y byddent yn gymorth y naill i'r llall.

Onid oes yn yr hanes hwn ddarlun byw o'r Arglwydd Iesu Grist yn sefydlu perthynas gysegredig a chariadus rhwng credinwyr a'i gilydd? Yn ein heglwysi, er enghraifft, gall ieuenctid fabwysiadu gweddwon yr eglwys a'u helpu yn eu gwahanol anghenion, a gall aelodau hŷn fabwysiadu ieuenctid yr eglwys a'u cynorthwyo mewn modd cyfeillgar. Teulu yw eglwys, gyda'r holl aelodau yn blant i'r Tad nefol, ac yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd yng Nghrist.

Yn y weithred gysegredig o gyflwyno Mair, gwraig ganol oed, ac Ioan, gŵr ifanc, i ofal ei gilydd, fe bwysleisiodd Iesu Grist nad yw gwahaniaeth oedran yn cyfrif oddi mewn i rwymyn cariad. Gadewch i ni gofio hyn fel Eglwys yn wastad, a chofio hefyd eiriau ein Harglwydd, 'Pwy bynnag sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd, y mae'n frawd i mi, ac yn chwaer, ac yn fam'.

'A phan ddaeth yn hanner dydd, bu tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn. Ac am dri o'r gloch, gwaeddodd Iesu â llef uchel, 'Eloï, Eloï, lema sabachthani,' hynny yw, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?''

Ein hymateb cyntaf i'r gri arswydus hon yw ei bod y tu hwnt i'n dealltwriaeth a'n dirnadaeth ddyfnaf. Yng ngeiriau'r emynydd y cyfaddefwn:

Mae yma ryw ddirgelion,
   Rhy ddyrys ynt i ddyn,
Ac nid oes all eu datrys
   Ond Duwdod mawr ei hun.

Pan waeddodd Iesu Grist y weddi hon, roedd eisoes wedi dioddef chwe awr o erchylltra'r groes. Rhoddwyd ef ar y groes am naw o'r gloch y bore, a thair awr yn ddiweddarach, yn ôl Efengyl Marc, trodd canol dydd fel canol nos. Mae'n anodd egluro arwyddocâd y tywyllwch. Onid oes awgrym yma fod croeshoelio Iesu wedi effeithio hyd yn oed ar y greadigaeth? Wedi'r cyfan, onid Arglwydd y cread oedd yn marw ar y groes?

Mae'n amlwg mai cri o'r dyfnder yw'r weddi hon, ac ynddi, fe ddatgela Iesu'r pellter yr aeth i geisio pechadur. Yn wir, fe aeth mor bell i'n ceisio fel iddo brofi'r arswyd eithaf, sef y profiad ingol fod Duw wedi ei adael.

Fel yr awgrymwyd eisoes, ni allwn ddeall yn gyflawn y weddi hon, ond fe wyddom rai pethau i sicrwydd. Ar ei groes, fe brofodd Iesu Grist ganlyniadau pechod heb fod yn bechadur ei hunan. A mwy na hynny, fe gariodd faich aflendid dynoliaeth mor llwyr nes profi dieithrwch a chondemniad Duw ar bechod. Mynegir hyn yn glir a chryno gan yr Apostol Paul:

'Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni fod, ynddo ef, yn un â chyfiawnder Duw.' Yng ngeiriau'r emynydd,

'Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,
   Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un;
Y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr,
   Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun.'

Pumed waedd Iesu Grist oddi ar y groes oedd, 'Y mae arnaf syched.' Cyn hyn, roedd Iesu wedi dioddef oriau o boenau arteithiol. Fe'i gwisgwyd â choron o ddrain; fe'i chwipiwyd yn ddidrugaredd, a gorfodwyd ef i gario'r groes ar ei gefn dolurus. Ar ddiwedd y daith i ben Calfaria, hoeliwyd ei ddwylo i'r pren, a rhwygwyd ei gnawd wrth i'r milwyr godi'r groes yn unionsyth.

Gweithred ddieflig oedd croeshoelio Iesu Grist. Ar ôl dioddef oriau ar y groes ym mhoethder yr haul, yr oedd ei dafod yn chwyddedig, a'i syched yn ddirdynnol. Do, fe brofodd gosb greulonaf ei oes, ac yn ei boen arteithiol, gwaeddodd, 'Y mae arnaf syched.' Mae'r frawddeg hon yn tystio i ddyndod gwirioneddol Iesu Grist, a'r modd y bu iddo ei uniaethu ei hun â dioddefaint dyfnaf dyn. Nid ffugio dioddefaint a wnaeth, ond ei brofi i'r eithaf. Mae'r waedd, 'Y mae arnaf syched' yn fynegiant hefyd, medd rhai esbonwyr, o syched Iesu Grist am achub eneidiau. Yn Efengyl Ioan, fe eglurir syched Crist mewn modd ffigurol, lle cawn ei hanes ar ddydd olaf un o'r gwyliau Iddewig, yn galw'r tyrfaoedd ato gan ddweud, 'Pwy bynnag sy'n sychedig, dewch ataf fi ac yfed.'

Syched am waredigaeth yw syched y Cristion, ond syched i waredu yw syched Iesu Grist. Yn wir, onid ei syched i waredu eraill a'i harweiniodd i'r groes, ac onid yw ei syched, fel yr awgryma'r emynydd, yn parhau o hyd?

'Y Gŵr wrth ffynnon Jacob
   Eisteddodd gynt i lawr,
Tramwyodd drwy Samaria,
   Tramwyed yma'n awr;
'Roedd syched arno yno
   Am gael eu hachub hwy;
Mae syched arno eto
   Am achub llawer mwy.'

'Yna wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, 'Gorffennwyd'.' Ioan yn unig sy'n cofnodi'r gair hwn, ac mae'n air trymlwythog ei ystyr o gofio arwyddocâd gweinidogaeth Iesu Grist a'r hyn a wnaeth ar Galfaria. Mae dioddefiadau Crist ar y groes yn annisgrifiadwy, ond nid amharodd hyn ar ei reolaeth o'r sefyllfa. Iesu Grist yw'r brenin a ddewisodd o'i wirfodd i fod yn was dioddefus. Y mae'r awenau yn ei ddwylo. Cyn Calfaria, fe ddywedodd Iesu am ei einioes, 'Nid yw neb yn ei dwyn oddi arnaf, ond myfi ohonof fy hun sy'n ei rhoi.' Nid dweud heb wneud a wnaeth ein Harglwydd, ond cyflawni a rhoi ei einioes o'i fodd yn bridwerth dros lawer.

Felly, nid gorfodaeth dynion yw elfen lywodraethol croes Calfaria, ac nid ochenaid o ollyngdod i ddarfod am byth sydd yn y gair 'Gorffennwyd', ond grym anorchfygol cariad Duw. Bloedd concwerwr yn cyhoeddi bod ei waith ar y ddaear wedi ei gyflawni yn fuddugoliaethus sydd yma. Gorchfygodd holl alluoedd y tywyllwch oddi ar y groes, gan gynnwys angau ei hun.

'Holl lafur Crist, trwy boenus daith,
   A'i galed waith ddibennwyd,
Pan roes ei olaf anadl gref
Yr uchel lef, "Gorffennwyd".'

Deuwn at weddi olaf Iesu Grist oddi ar ei groes, 'Llefodd Iesu â llef uchel, 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd.' A chan ddweud hyn bu farw.' Mae'r weddi hon yn adlais o weddi'r Salmydd yn Salm 31. Yn ystod ei fywyd gwnaeth Iesu ddefnydd helaeth o'r Hen Destament, ac mae'n arwyddocaol mai dyfynnu o'r Ysgrythurau Iddewig a wnaeth yn ei frawddeg olaf cyn marw. A geiriau ydynt sy'n hynod o addas, 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd.'

Dengys hyn ymddiriedaeth lwyr Iesu Grist yn Nuw. Yn wir, onid felly y bu Iesu fyw o Fethlehem i Galfaria? Fe ymddiriedodd yn ei Dad nefol ar hyd y daith, ac ar ôl gorffen pob peth, fe ddychwelodd ei ysbryd i ddwylo Duw. Do, fe brofodd ddieithrwch ei Dad nefol am foment arswydus oddi ar y groes, ond parhaodd i weddïo, ac yn ei weddi olaf, fe gyfarchodd Dduw, nid fel teyrn yn ei gosbi, ond fel Tad yn ei garu, ac yn yr ysbryd hynny, bu farw. Nid dyna fu'r diwedd, fodd bynnag, ac ar ddydd cyntaf yr wythnos, datguddiodd Duw fuddugoliaeth Iesu croeshoeliedig yn y Crist atgyfodedig, byw.

Dangosodd i'r byd nad yn ofer yr aeth ei Fab i'r groes:

'Pan grymodd Iesu ei ben
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
I bur drigfannau'r ne'!'

Gorffennwn ein myfyrdod gyda datganiad bendigedig yr Apostol Paul. 'Ond yn y pethau hyn i gyd yr ydym yn ennill buddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.' Ac iddo ef y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr, ac yn oes oesoedd. Amen.

***John Lewis Jones***